@chwaraeonrhct

www.chwaraeonrhct.co.uk I www.sportrct.co.uk

Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Datblygu Pobl - Prosiect Beiciau Cydbwysedd Ysgol Gynradd Cap-coch

Trwy weithio mewn partneriaeth â charfan Diogelwch y Ffyrdd y Cyngor, aethon ni ati i ddatblygu prosiect i gynnig hyfforddiant ac adnoddau beiciau cydbwysedd i ysgolion cynradd. Darparon ni 20 o feiciau cydbwysedd i'r garfan Diogelwch y Ffyrdd a gofynnon ni iddyn nhw roi cynnig ar y prosiect mewn nifer o ysgolion penodol.

Mae'r garfan yn darparu dwy sesiwn hyfforddi sy'n para hanner diwrnod i bob ysgol. Maen nhw'n addysgu'r plant ac yn hyfforddi'r athrawon fel bod modd iddyn nhw barhau â'r sesiynau yn yr hir dymor. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gweithgareddau 'paratoi i feicio' sy'n gwella sgiliau cydbwysedd, cydsymud a hyder, ac amser ar y beiciau yn dysgu sut i'w defnyddio. Yn dilyn y sesiynau hyfforddi, cafodd y beiciau cydbwysedd ac adnoddau eu gadael yn yr ysgol am 6-8 wythnos.

Cysylltodd Ysgol Gynradd Cap-coch â ni gan fod pawb yno'n awyddus i ymgymryd â phrosiect i wella sgiliau cydbwysedd, cydsymud a hyder ymysg y disgyblion, felly trefnon ni fod yr ysgol yn derbyn sesiynau hyfforddi, adnoddau a beiciau. Yn dilyn y sesiynau hyfforddi, sylweddolodd yr athrawon pa mor fuddiol oedd y beiciau er mwyn helpu disgyblion y cyfnod sylfaen i ddatblygu eu sgiliau cydbwysedd a chydsymud. Roedden nhw wedi sylwi bod datblygiad corfforol plant wedi dioddef yn ystod y pandemig, ac roedden nhw'n awyddus i sicrhau eu bod nhw'n darparu cyfleoedd i blant fireinio'r sgiliau yma a magu hyder. Penderfynon nhw gyflwyno cais i'r Gronfa Ysgolion er mwyn iddyn nhw brynu eu hoffer eu hun, a bod â'r gallu i ddarparu sesiynau yn yr hir dymor. Roedd eu cais yn llwyddiannus ac aethon ni ati i ddarparu offer beiciau cydbwysedd gwerth £500.

Mae'r disgyblion wir wedi mwynhau defnyddio offer sy'n caniatáu iddyn nhw fod yn greadigol ac adeiladu eu llwybrau cydbwysedd eu hunain. Mae modd symud yr offer yma o amgylch yr ysgol yn hawdd felly mae modd i'r plant greu eu gweithgareddau eu hunain. Mae gan bob dosbarth fynediad at y beiciau yn wythnosol, ac maen nhw ar gael yn ystod amser egwyl. Mae'r dosbarthiadau meithrin a derbyn yn defnyddio'r beiciau bob dydd er mwyn gwella hyder a sgiliau.

> *"Mae'r plant iau wedi gwella eu cydbwysedd ac wedi magu hyder. Mae'r offer wedi gwella eu hymwybyddiaeth ofodol wrth symud o amgylch yr ystafell ddosbarth, ac rydyn ni wedi sylwi ar gynnydd yn eu sgiliau cerdded (cydbwyso), neidio a gwneud penderfyniadau. Mae'r offer hefyd wedi bod yn wych ar gyfer plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol gan ein bod ni'n caniatáu amser ychwanegol iddyn nhw ddefnyddio'r offer. Mae rhai o'r plant yma'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn dosbarth mawr, ond maen nhw'n elwa ar gael defnyddio'r offer"*
>
> *Athro*

**£500** o gyllid wedi'i ddyfarnu

**100%** yn teimlo'n fwy hyderus

**100%** yn bwriadu parhau i gymryd rhan

**169** o bobl yn cymryd rhan

**100%** yn teimlo'n fwy hapus

RHONDDA CYNON TAF